

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.



# RHEOLIADAU A GWEITHDREFN CAMYMDDWYN ACADEMAIDD 2023/2024

<b>Teitl:</b> Rheoliadau Camymddwyn Academaidd					
<b>Fersiwn</b>	<b>Dyddiad Cyhoeddi</b>	<b>Disgrifiad o'r Adolygiad</b>	<b>Awdur</b>	<b>Cymeradwywyd Gan a'r Dyddiad</b>	<b>Dyddiad Adolygu Nesaf</b>
1.0	Medi 2019	Cyhoeddiad Cyntaf	Gwenllian Jones	Bwrdd Llywodraethwyr 12 Awst 2019	Mehefin 2020
2.0	Medi 2020	Ail Gyhoeddiad	Gwenllian Jones	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd/Bwrdd Llywodraethwyr 6 Gorffennaf 2020	Mehefin 2021
3.0	Medi 2021	Trydydd Cyhoeddiad	Gwenllian Jones	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd/Bwrdd Llywodraethwyr	Mehefin 2022
4.0	Medi 2022	Pedwerydd Cyhoeddiad	Gwenllian Jones	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Llywodraethwyr	Mehefin 2023
5.0	Medi 2023	Pumed Cyhoeddiad	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd/Bwrdd Llywodraethwyr	Mehefin 2024

## RHAN A: RHEOLIADAU

### ADRAN A1: CYFLWYNIAD

- 1.1 Dylid darllen Rheoliadau Camymddwyn Academaidd y Brifysgol ar y cyd â Rhan B: Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd.
- 1.2 Mae Rheoliadau Camymddwyn Academaidd y Brifysgol yn berthnasol i'r canlynol:
- Myfyrwyr sy'n astudio gyda Phrifysgol De Cymru.
  - Myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.  
*(D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'cyfadrannau' neu at 'cyfadran' yn y rheoliadau yn golygu 'y Coleg'.)*
  - Myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol yn sefydliadau partner y Brifysgol.
  - Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith, neu sy'n ymgymryd â dysgu yn y gwaith.
  - Myfyrwyr sydd wedi cael caniatâd cymeradwy i fod yn absennol.
  - Prentisiaid/myfyrwyr cyflogedig  
*(D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'myfyriwr/myfyrwr' yn golygu 'prentis/prentisiaid/myfyrwr cyflogedig' hefyd. Darperir gwybodaeth am dderbyn, cynnydd a chanlyniad honiadau o gamymddwyn academaidd yn erbyn prentisiaid i Ddeon Cyfadran (neu enwebai), a all hysbysu cyflogwr y prentis/myfyriwr cyflogedig.)*
  - Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig  
*(D.S. Mae Adrannau A6.2 – 6.3 y Rheoliadau Camymddwyn Academaidd yn berthnasol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig trwy gydol eu hastudiaethau hyd at gyflwyno traethawd. Bydd honiadau o gamymddwyn academaidd yn erbyn myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig bob amser yn cael eu hystyried gan Banel Camymddwyn Academaidd. Ar ôl cyflwyno traethawd ymchwil, bydd y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau Graddau Ymchwil yn berthnasol.*
  - Cyn-fyfyrwyr y Brifysgol, lle gwneir honiad ynghylch asesiad, a gwblhawyd ganddynt yn ystod eu hamser fel myfyriwr gweithredol yn y Brifysgol.
- 1.3 Camymddwyn Academaidd yw unrhyw weithred neu ymgais at weithred a all arwain at greu mantais neu anfantais academaidd annheg i unrhyw aelod/aelodau o'r gymuned academaidd.
- 1.4 Mae'r Brifysgol yn 'gymuned ddysgu' lle mae myfyrwyr a staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd, eu cymheiriaid a thrwy ymchwil gwreiddiol. Disgwylir i bob aelod o'r Brifysgol gynnal uniondeb ymddygiad academaidd a pherthnasoedd proffesiynol uchel, yn seiliedig ar gwrteisi, gonestrwydd a pharch at ei gilydd.
- 1.5 Fel egwyddor, agwedd y Brifysgol at gamymddwyn academaidd yw meithrin dysgu a dealltwriaeth, heb ragfarn, gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r drosedd. Felly, dylid ystyried y cosbau y ceir manylion amdanynt yn adran A6 y Rheoliadau Camymddwyn Academaidd gyda hyn mewn golwg.

**ADRAN A2: EGWYDDORION CYFFREDINOL****Egwyddorion allweddol**

- 2.1 Os amheuir bod myfyrwyr wedi cyflawni Camymddwyn Academaidd, fel y'i diffinnir yn adran A4, caiff yr achos ei ystyried.
- 2.2 Rhaid codi achosion o amheuaeth ynglŷn â chamymddwyn academaidd yn syth ar ôl eu nodi, a dim hwyrach nag 20 diwrnod gwaith ar ôl eu dynodi. Nid oes terfyn amser ar gyfer atgyfeirio os daw tystiolaeth i'r amlwg ar ôl i fyfyrwr dderbyn ei farciau neu ennill eu cymhwyster (gweler hefyd A6 6.5).
- 2.3 Os bydd myfyrwyr yn credu bod cyd-fyfyrwr wedi defnyddio unrhyw rai o'r arferion Camymddwyn Academaidd a ddiffinnir yn adran 4, dylent siarad ag Arweinydd y Modiwl. Bydd y sgwrs hon yn gyfrinachol ac ni fydd enwau'r myfyrwyr sy'n codi pryderon yn cael eu datgelu fel rhan o unrhyw ymchwiliad. Fodd bynnag, ni chymerir unrhyw gamau pellach oni bai bod y marciwr neu'r Arweinydd Modiwl yn credu bod digon o dystiolaeth i honiad gael ei godi. Ni fydd myfyrwr sy'n adrodd yn cael gwybod a yw honiad yn cael ei godi ai peidio ac ni chaiff wybod am unrhyw ganlyniad posibl o dan y Weithdrefn Camymddwyn Academaidd.
- 2.4 Disgwylir i'r academydd sy'n amau achos o gamymddwyn academaidd gwrdd â'r myfyrwr yn gyntaf i egluro bod pryderon wedi'u codi am eu gwaith neu ymddygiad. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig yn ystod blwyddyn astudio gyntaf myfyrwr, lle gallai fod angen cymorth ychwanegol. Disgwylir yn benodol i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal pan amheuir achosion cymhleth fel cydgyllwynio neu dwyllo contract. Dylid darparu nodiadau o gyfarfodydd o'r fath fel rhan o'r dystiolaeth pan gyflwynir honiadau o gamymddwyn academaidd.
- 2.5 Anogir myfyrwyr i geisio cyngor cyfrinachol a chymorth gan yr Undeb Myfyrwyr neu'r Ardal Gyngori, neu'r tîm Cyngor Mewnffudo a Myfyrwyr Rhyngwladol a byddant yn cael cyfle i roi eu hachos gerbron os oes amheuaeth eu bod wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn academaidd.
- 2.6 Ni ellir defnyddio amgylchiadau esgusodol i gyfiawnhau Camymddwyn Academaidd.
- 2.7 Os yw cyrsiau'n cael eu llywodraethu gan ofynion corff proffesiynol, neu fod myfyrwr wedi'i gofrestru ar gwrs prentisiaeth gradd, neu'n fyfyrwr cyflogedig, mae'n bosibl y bydd gofyn i'r Brifysgol roi gwybod i'r corff neu'r cyflogwr perthnasol, naill ai ar ôl cychwyn ymchwiliad, yn ystod, neu'n dilyn ymchwiliad, os amheuir neu penderfynir bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd. Gall y gofynion amrywio yn dibynnu ar y corff proffesiynol cyfatebol, cwrs prentisiaeth gradd neu gyflogwr.
- 2.8 Mewn achosion o honiadau niferus am gamymddwyn academaidd yn codi ar yr un pryd, bydd y Swyddog Camymddwyn Academaidd neu'r Panel Camymddwyn Academaidd fel arfer yn ystyried yr honiadau yn gydamserol:
- a) os nad yw'r myfyrwr wedi'i gael yn euog o'r blaen o gamymddwyn academaidd; ac/neu
  - b) os penderfynir na fyddai digon o amser i'r myfyrwr elwa ar arweiniad academaidd priodol yn ystod y cyfnod rhwng darganfod Camymddwyn Academaidd mewn un darn o waith, a chyflwyno darn arall.

## Ymdrin â Chamymddwyn Academaidd

- 2.9 Bydd cyfrifoldebau'r Swyddog Chamymddwyn Academaidd a'r Panel Chamymddwyn Academaidd fel a ganlyn:
- a) Sicrhau bod pob myfyriwr sy'n cael ei amau o gamymddwyn academaidd yn cael gwrandawriad llawn a theg;
  - b) Cyhyd ag y bo modd, sefydlu ffeithiau'r achos, a phenderfynu a yw'r honiad wedi'i gadarnhau ai peidio, a pha mor ddifrifol ydyw;
  - c) Penderfynu ar ganlyniad priodol, a all gynnwys cosb, a chyfeirio'r myfyriwr at gymorth academaidd briodol;
  - ch) Rhoi gwybod i'r bwrdd/byrddau asesu pwnc priodol am y penderfyniad.
- 2.10 Er mwyn cadarnhau honiad, ni fydd yn ofynnol i'r Brifysgol brofi bod y myfyriwr wedi bwriadu cyflawni gweithred o gamymddwyn academaidd. Fodd bynnag, gallai prawf ychwanegol o fwriad fod yn berthnasol wrth benderfynu ar gosb briodol. Cyfrifoldeb y Brifysgol yw profi, yn ôl yr hyn sy'n debygol, fod bwriad i gyflawni achos o gamymddwyn academaidd (h.y. mae'r myfyriwr yn fwy tebygol na pheidio o fod wedi camymddwyn yn academaidd).
- 2.11 Mewn achosion o gydgyllwynio, lle mae dau neu ragor o fyfyrwyr yn cael eu cyhuddo o droseddau perthynol, bydd y Brifysgol yn penodi'r un AMO a gall myfyrwyr gael eu gwahodd i gyfarfod unigol neu grŵp gyda'r AMO a/neu'r AMP. Rhoddir cyfle i bob myfyriwr ofyn i'r achosion gael eu clywed ar wahân os trefnir unrhyw gyfarfodydd neu wrandawriadau.
- 2.12 Mae'r Swyddog Chamymddwyn Academaidd yn cadw'r hawl i gwrdd â'r aelod o staff sy'n codi'r honiad neu unrhyw dystion os yw'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol er mwyn llywio ei ymchwiliad. Pan gyfeirir achos at y Panel Chamymddwyn Academaidd, rhaid i bob cwestiwn a ofynnir i'r aelod staff sy'n gwneud yr honiad ac/neu unrhyw dystion, ymwneud yn uniongyrchol â'r honiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Bydd tystion yn gadael fel rheol ar ôl cael eu holi gan y Panel Chamymddwyn Academaidd, ond mewn unrhyw achos, ni fyddant yn parhau i fod yn bresennol ar ôl i'r myfyriwr adael. Rhaid i bob parti gytuno os yw Cadeirydd y Panel Chamymddwyn Academaidd yn dymuno caniatáu i dystion aros ar ôl cwblhau'r holi. Bydd pob cyfarfod yn cael ei gofnodi'n ffurfiol fel rhan o'r ffeil achos.
- 2.13 Gall tystiolaeth ddogfennol ychwanegol gael ei chyflwyno ar ddiwrnod y cyfarfod dim ond os bydd y Swyddog Ymddygiad Academaidd/Cadeirydd y Panel Chamymddwyn Academaidd yn rhoi caniatâd penodol. Os na fydd myfyriwr yn dymuno mynychu cyfarfod gyda'r Swyddog Chamymddwyn Academaidd/Panel Chamymddwyn Academaidd, caniateir iddo/iddi gyflwyno datganiad ysgrifenedig ategol i'w ystyried yn ystod y cyfarfod.
- 2.14 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Ymddygiad Academaidd/Cadeirydd y Panel Chamymddwyn Academaidd geisio arweiniad gan aelodau perthnasol y gyfadran ynghylch a ddylid wedyn ystyried achos o dan y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer, neu ofynion corff proffesiynol arall neu gyflogwr, a chyfeirio'r achos ymlaen fel y bo'n briodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau/modiwlau proffesiynol wedi'u rheoleiddio neu sydd eisoes yn weithwyr proffesiynol cofrestredig.

- 2.15 Gall myfyrwyr gael eu cyfeirio drwy reoliadau a gweithdrefn arall/eraill y Brifysgol yn ystod neu ar ôl i achos ddod i ben, os ystyrir bod hyn yn briodol. Gall prentisiaid /myfyrwyr a gyflogir hefyd fod yn destun ymchwiliad mewnol gan eu cyflogwr mewn cydsyniad â, neu yn dilyn gweithdrefn y Brifysgol ei hun.

### **ADRAN A3: ARFER ACADEMAIDD GWael**

- 3.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall myfyrwyr gyflawni camymddwyn academaidd yn anfwriadol trwy arfer academaidd gwael. Mae arfer academaidd gwael yn digwydd pan fydd myfyrwyr yn paratoi darn o waith gwael ar gyfer ei asesu. Os bydd tîm y cwrs yn ystyried bod myfyriwr wedi cyflawni arfer academaidd gwael, gallant ymdrin â hyn ac nid oes angen cyfeirio at y Weithdrefn hon. Bydd tîm y cwrs yn cyfeirio'r myfyriwr at weithdy cyfeirio priodol neu diwtorial unigol yn y Gwasanaeth Datblygu Myfyrwyr a Sgiliau Astudio. Bydd hyfforddwr academaidd personol y myfyriwr yn cael ei hysbysu o'r canlyniad a'r atgyfeiriad, lle bo'n briodol.
- 3.2 Os bydd myfyriwr yn parhau i ddefnyddio arfer academaidd gwael, bydd y Brifysgol yn ystyried bod y myfyriwr wedi defnyddio arferion Camymddwyn Academaidd, fel y nodir yn adran A4, oni bai bod yr amgylchiadau yn gydamserol.

### **ADRAN A4: DIFFINIADAU O GAMYMDDWYN ACADEMAIDD**

#### **Llên-ladrad**

- 4.1 Gall llên-ladrad fod yn ysgrifenedig neu'n anysgrifenedig a'i ystyried fel llên-ladrad pan fydd myfyrwyr yn defnyddio gwaith, syniadau neu eiddo deallusol rhywun arall, gan gynnwys defnyddio llwyfannau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol megis sgwrsio GPT, heb gydnabyddiaeth briodol trwy ddefnyddio confensiynau cyfeirio cywir, neu ddull datgan cymeradwy. Ceir enghreifftiau manwl o lôn-ladrad yn: <https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/academic-misconduct/>

#### **Twyllo**

- 4.2 Twyllo yw pan fydd myfyrwyr yn gweithredu'n anonest neu'n annheg cyn, yn ystod neu ar ôl arholiad neu brawf dosbarth crynodol (gan gynnwys ar-lein) er mwyn ennill mantais neu gynorthwyo myfyriwr arall i wneud hynny. Rhoddir enghreifftiau manwl o dwyllo yn: <https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/academic-misconduct/>

#### **Twyllo dan gontract**

- 4.3 Twyllo dan gontract yw pan fydd myfyrwyr yn chwilio am bobl eraill i gynhyrchu gwaith neu brynu traethawd neu aseiniad, naill ai 'oddi ar y silff' neu wedi'i ysgrifennu'n benodol ar eu cyfer, a'i gyflwyno fel eu gwaith eu hunain. Mae enghreifftiau manwl o dwyllo dan gontract i'w gweld yn: <https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/academic-misconduct/>
- 4.4 Os codir honiad yn erbyn myfyriwr sy'n ymwneud â gwerthu gwaith i fyfyrwyr eraill neu drydydd partïon, ni waeth a gyflwynir y gwaith hwnnw i'w asesu ai peidio, ymdrinnir â'r honiad trwy Weithdrefnau Ymddygiad Myfyrwyr neu Ffitrwydd i Ymarfer y Brifysgol. Os codir honiad yn erbyn aelod o staff mewn perthynas â chynorthwyo myfyriwr i gyflawni trosedd academaidd neu werthu gwaith i fyfyrwyr eraill neu drydydd partïon, ni waeth a gyflwynir y gwaith hwnnw i'w asesu ai peidio,

caiff yr honiad ei ystyried drwy'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr neu Ffitrwydd i Ymarfer.

- 4.5 Os codir honiad yn erbyn aelod o staff mewn perthynas â chynorthwyo myfyriwr i gyflawni trosedd academiaidd neu werthu gwaith i fyfyrwyr eraill neu drydydd partïon, ni waeth a gyflwynir y gwaith hwnnw i'w asesu ai peidio, ystyrir yr honiad yn erbyn yr aelod o staff drwy'r Weithdrefn Disgyblu ar gyfer Staff.

### **Ffugio**

- 4.6 Ffugio yw pan fydd myfyrwyr yn ceisio cyflwyno data, tystiolaeth, cyfeiriadau, dyfyniadau ffug neu wyrdröedig, ffugio gwybodaeth neu ganlyniadau arbrolfol ac/neu gan wybod eu bod yn eu defnyddio fel rhan o asesiad. Rhoddir enghreifftiau manwl o ffugio yn: <https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/academic-misconduct/>
- 4.8 Yn achos myfyrwyr ar gyrsiau sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol, mae honni'n ffug eich bod wedi cwblhau gofynion anacademaidd megis oriau yn gwneud gwaith ymarferol, neu eich bod wedi cyflawni cymwyseddau proffesiynol, yn gallu arwain at eich gwahardd rhag parhau ar y cwrs a hysbysu'r corff proffesiynol perthnasol (am ragor o wybodaeth, gweler y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer).

### **Ailgylchu**

- 4.9 Ailgylchu, y cyfeirir ato weithiau fel hunan-lên-ladrad, yw pan fydd myfyrwyr yn cyflwyno darn o waith sydd eisoes wedi cael ei ddefnyddio mewn un cyd-destun (e.e. mewn aseiniad) ac yna'n ei ddefnyddio eto mewn cyd-destun arall. Rhoddir enghreifftiau manwl o ailgylchu yn: <https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/academic-misconduct/>
- 4.8 Mewn rhai achosion, gall fod yn dderbyniol defnyddio gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol ar gyfer aseiniad ysgrifenedig yn sylfaen ar gyfer ateb arholiad neu er mwyn ymestyn a datblygu'r gwaith hwnnw ymhellach ar lefel uwch, er enghraifft, datblygu'r syniadau a ffurfiwyd mewn traethawd trydedd flwyddyn yn draethawd lefel Meistr. Byddai sefyllfaoedd o'r fath yn dod o dan reoliadau penodol y cwrs astudio priodol.

### **Cydgynllwynio**

- 4.10 Weithiau bydd gofyn i fyfyrwyr gydweithio, gan baratoi a chyflwyno aseiniadau gyda'i gilydd, ac mewn achosion o'r fath mae 'gwaith ar y cyd' yn hollol briodol. Mae cydgynllwynio'n digwydd, oni bai gyda chymeradwyaeth swyddogol (e.e. yn achos rhai mathau o brosiectau grŵp), pan fydd dau neu ragor o fyfyrwyr yn cydweithio i gynhyrchu gwaith, ac maent yn cyflwyno gwaith, sy'n afresymol o debyg a/neu yr honnir gan y myfyrwyr ei fod yn gynnyrch eu hymdrechion unigol. Os bydd un myfyriwr yn rhannu ei waith ei hun â myfyriwr arall, gan arwain at gyflwyno darnau o waith sy'n debyg, ystyrir bod hyn yn gydgynllwynio gan y naill a'r llall, ni waeth beth oedd y bwriad. Rhoddir enghreifftiau manwl o gydgynllwynio yn: <https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/academic-misconduct/>
- 4.11 Mewn rhai achosion, efallai na nodir cydgynllwynio nes bod ymchwiliad ar y gweill i honiad o fath gwahanol o gamymddwyn academiaidd. Os felly, bydd y Swyddog Camymddwyn Academaidd/Cadeirydd y Panel Camymddwyn Academaidd yn hysbysu'r tiwtor a gyflwynodd yr honiad gwreiddiol, a fydd yn trafod gyda'r Arweinydd Modiwl neu'r Arweinydd Cwrs a ddylid cynnal ymchwiliad pellach/a oes

angen cyflwyno honiadau pellach. Gall hyn achosi oedi yn amserlenni arferol y Brifysgol.

### **Mathau eraill o gamymddwyn academiaidd**

- 4.12 Mae'n bosibl bod mathau eraill o gamymddwyn academiaidd sydd heb eu cynnwys uchod. Mae enghreifftiau'n cynnwys lle bydd myfyriwr yn ymgymryd ag arfer anfoesegol megis gwneud gwaith ymchwil heb gael caniatâd moesegol gan y Brifysgol lle mae angen cael caniatâd o'r fath, neu ddefnyddio, heb awdurdod, wybodaeth a gasglwyd yn gyfrinachol.
- 4.13 Gall achosion berthyn i fwy nag un categori.
- 4.14 Pan fydd aelod staff yn pryderu bod myfyriwr wedi cyflwyno gwaith sy'n sylweddol wahanol o ran safon neu arddull i waith arall a gyflwynwyd yn flaenorol, dylai'r gyfadran (yr aelod staff academiaidd a nododd bod ganddo/ganddi bryder) adolygu ac ystyried y dystiolaeth cyn penderfynu a oes angen cyfeirio'r achos at Swyddog/Panel Camymddwyn Academiaidd. Disgwylir y byddai hyn yn cynnwys cyfarfod archwiliadol gyda'r myfyriwr, y dylid cyflwyno'r nodiadau yn deillio o'r cyfarfod hwnnw fel tystiolaeth ynghyd â'r honiad o gamymddwyn academiaidd. Dylid cyflwyno enghreifftiau o waith academiaidd blaenorol y myfyriwr hefyd fel tystiolaeth o'r gwahaniaeth sylweddol.  
Ceir y gweithdrefnau perthnasol a'r canllawiau yn:  
<https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/academic-misconduct/>
- 4.15 Pan fydd unrhyw amwysedd ynglŷn â pha weithdrefn y dylid ei chymhwyso oherwydd natur honiad, bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cysylltu â Deon Cyfadran (neu enwebai) cyn penderfynu ar y weithdrefn briodol. Enghraifft o hyn yw pan fydd elfennau yn yr honiad a fyddai'n fwy priodol ei hystyried o dan y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr, yn ogystal ag elfennau o gamymddwyn academiaidd. Os yw mwy nag un weithdrefn yn berthnasol a'i bod yn angenrheidiol dilyn y naill cyn y llall, gellir defnyddio canlyniad y cyntaf i lywio'r weithdrefn/gweithdrefnau dilynol.

## **ADRAN A5: CAMAU WRTH YMDRIN Â HONIADAU O GAMYMDDWYN ACADEMAIDD**

Mae tri cham i Weithdrefn Camymddwyn Academiaidd y Brifysgol, sef:

### **Cam 1 – Lefel Cyfadran**

- 5.1 Enwebai Deon Cyfadran sy'n darparu'r cwrs fydd yn rheoli achosion o gamymddwyn academiaidd yn y gyfadran honno. Ar gyfer unrhyw achosion yn ymwneud â modiwlau ar draws cyfadranau, bydd y gyfadran sy'n darparu'r cwrs yn ymdrin â'r honiad o gamymddwyn academiaidd.
- 5.2 Bydd gan bob cyfadran dîm o Swyddogion Camymddwyn Academiaidd a fydd yn ystyried achosion ar lefel cyfadran. Bydd y Swyddogion Camymddwyn Academiaidd yn aelodau staff academiaidd, gyda phrofiad perthnasol, wedi'u henwebu gan y Deon (neu enwebai). Ni fydd y Swyddog Camymddwyn Academiaidd wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r achos, ac ni fydd yn gysylltiedig ag ystyried canlyniadau modiwl y myfyriwr. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn ofynnol i Swyddogion Camymddwyn Academiaidd o'r tu allan i'r gyfadran lle mae'r cwrs yn bodoli ystyried achos.

## Cam 2 - Lefel y Brifysgol

- 5.3 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Bwrdd Camymddwyn Academaidd y dewisir Panel Camymddwyn Academaidd o blith ei aelodau i wrando ar achosion sydd naill ai'n gymhleth neu lle mae'n bosibl y bydd y gosb yn fwy nag A6 6.1 c).

## Cam 3 - Adolygiad

- 5.4 Bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn penderfynu a oes achos amlwg dros gynnal adolygiad. Os oes sail ar gyfer adolygiad, bydd Panel Adolygu yn ymgynnull i ystyried yr achos, oni bai bod gwall gweinyddol syml.

Gellir gweld manylion am y broses ym mhob cam yn Rhan B: Gweithdrefn ar gyfer Camymddwyn Academaidd.

## ADRAN A6: COSBAU POSIBL YN DILYN ACHOSION PROFEDIG O GAMYMDDWYN ACADEMAIDD

### Myfyrwyr ar raglenni a addysgir

- 6.1 Dyma'r dewisiadau sydd ar gael i Swyddog Camymddwyn Academaidd (hyd at, ac yn cynnwys cosb 3) neu Banel Camymddwyn Academaidd (yr holl gosbau), yn seiliedig ar ba mor ddifrifol yw'r honiad:
1. Cyhoeddi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol ynghylch ymddygiad yn y dyfodol. Cedwir nodyn o'r rhybudd ar gofnod personol y myfyriwr. Mae holl waith y myfyriwr yn cael ei farcio, gan ystyried yr ysgolheictod gwael yn briodol ac yn gymesur, yn unol â barn academaidd y tiwtor marcio ac mae'n dal i fod yn amodol ar y marc pasio sylfaenol<sup>1</sup>.
  2. Canslo'r marc ar gyfer yr elfen o'r asesiad – rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer yr elfen – mae'r modiwl cyfan wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol<sup>2</sup>, ond mae pob marc arall a enillwyd yn y modiwl yn aros yr un fath, yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir.
  3. Canslo'r marciau ar gyfer y modiwl cyfan – rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer pob elfen o'r asesiad er mwyn pasio'r modiwl – mae'r modiwl cyfan wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol.
  4. Canslo'r marciau ar gyfer y modiwl cyfan – rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer pob elfen o'r asesiad er mwyn pasio'r modiwl – mae'r modiwl wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol. Mae'r holl farciau modiwl ar gyfer y cam<sup>3</sup> wedi'u capio ar y marc pasio sylfaenol.

<sup>1</sup> Mae'r marc pasio wedi'i ddiffinio yn y ddogfen ddilysu. Fel arfer bydd hyn yn 40%; fodd bynnag, gall hyn fod yn wahanol ar gyfer rhai cyrsiau a modiwlau, lle, er enghraifft, gall fod rhanddirymiad oherwydd gofynion cyrff proffesiynol.

<sup>2</sup> Diffinnir y marc pasio yn y ddogfen ddilysu. Bydd fel rheol yn 40%, ond gall fod yn wahanol ar gyfer rhai cyrsiau a modiwlau, er enghraifft, efallai bod eithriad o ganlyniad i ofynion corff proffesiynol.

<sup>3</sup> Modiwlau o fewn cam yw'r modiwlau sy'n cael eu hastudio gan fyfyrwr yn y flwyddyn academaidd benodol honno.



5. Canslo'r holl farciau modiwl ar gyfer y cam cyfredol<sup>4</sup> – ni chaniateir i'r myfyriwr ailadrodd y flwyddyn. Caniateir i'r myfyriwr gadw'r credydau a enillwyd eisoes. Ni all y myfyriwr barhau ar y cwrs ond mae'n gymwys i wneud cais i gael ei dderbyn ar gwrs newydd yn unol â rheoliadau derbyn y Brifysgol.
6. Gwneir argymhelliad i'r Is-Ganghellor (neu enwebai) y dylid diarddel y myfyriwr dan sylw. Gall y myfyriwr gael ei ddiarddel:
  - i) gyda chredyd – caniateir i'r myfyriwr gadw'r credydau a gafwyd eisoes ond ni chaniateir unrhyw astudio pellach yn y Brifysgol;
  - ii) heb gredyd – caiff pob credyd a gafwyd ei ddiddymu ac ni chaniateir unrhyw astudio pellach yn y Brifysgol.
- 6.2 Cyfeiriwch at y Tariff Cosbau, a geir o dan Atodiad 1, i gael rhagor o wybodaeth am sut y gall y cosbau hyn effeithio ar astudiaethau academaidd myfyriwr yn dibynnu ar eu statws academaidd.
- 6.3 Gellir ystyried tystiolaeth o amgylchiadau esgusodol wrth bennu cosb briodol, ond nid wrth benderfynu a oes achos i'w ateb ai peidio (gweler A2 2.6).
- 6.4 Yn ogystal ag unrhyw benderfyniad a wneir o dan a) i ch) cyfeirir myfyriwr at weithdy cyfeirnodol priodol neu diwtorial unigol yng Ngwasanaeth Datblygu Myfyrwyr a Sgiliau Astudio'r Brifysgol.
- 6.5 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiddymu dyfarniad neu gredydau os darganfyddir bod Camymddwyn Academaidd wedi'i gyflawni er mwyn ennill y dyfarniad.

#### **Myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig – cyn cyflwyno traethawd ymchwil**

- 6.6 Dyma'r dewisiadau sydd ar gael i Banel Camymddwyn Academaidd:
  - a) Cyhoeddi rhybudd ffurfiol – caniateir i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith.
  - b) Gellir gwneud argymhelliad i'r Is-Ganghellor (neu enwebai) y dylid diarddel y myfyriwr dan sylw. Gall y myfyriwr gael ei ddiarddel:
    - i) gyda chredyd – caniateir i'r myfyriwr gadw'r credydau a gafwyd eisoes ar y cwrs y mae wedi ymrestru arno; ni chaniateir unrhyw astudio pellach yn y Brifysgol. Yn achos doethuriaethau proffesiynol, lle na chaniateir i fyfyrwyr ailgyflwyno'u traethawd gellir caniatáu iddynt adael gyda dyfarniad is.
    - ii) heb gredyd – caiff pob credyd presennol ei ddiddymu; ni chaniateir unrhyw astudio pellach yn y Brifysgol.

#### **Myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig – ar ôl cyflwyno traethawd ymchwil**

- 6.7 Dyma'r cosbau sydd ar gael i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil:
  - a) Bydd cyflwyniad cyntaf y traethawd yn cael ei ddiystyru. Caniateir i'r myfyriwr ailgyflwyno'i waith at ddiben ailarholi (yn ôl disgrisiwn yr arholwyr) ond ar gyfer dyfarniad is yn unig.

---

<sup>4</sup> Modiwlau o fewn cam yw'r modiwlau sy'n cael eu hastudio gan fyfyrwr yn y flwyddyn academaidd benodol honno.

- b) Gellir gwneud argymhelliad i'r Is-Ganghellor (neu enwebai) y dylid diarddel y myfyriwr dan sylw. Gall y myfyriwr gael ei ddiarddel:
- i) gyda chredyd – caniateir i'r myfyriwr gadw'r credydau a gafwyd eisoes; ni chaniateir unrhyw astudio pellach yn y Brifysgol. Yn achos doethuriaethau proffesiynol, lle na chaniateir i fyfyrwyr ailgyflwyno'u traethawd, gellir caniatáu iddynt adael gyda dyfarniad is;
  - ii) heb gredyd – caiff pob credyd presennol a gafwyd ei ddiddymu ac ni chaniateir unrhyw astudio pellach yn y Brifysgol.

6.8 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiddymu dyfarniad os darganfyddir bod Camymddwyn Academaidd wedi'i gyflawni er mwyn ennill y dyfarniad.

## **ADRAN A7: MYFYRWYR RHYNGWLADOL**

7.1 Bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig pan godir pryderon am fyfyrwr rhyngwladol a noddir gan y Brifysgol ar fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwyr.

Dylid cyfeirio'r myfyriwr at y tîm Cynghori Mewnfudo a Myfyrwyr Rhyngwladol i gael gwybodaeth am yr effaith a gaiff unrhyw gosb ar ei fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwyr.

## RHAN B: GWEITHDREFN

### ADRAN B1: CYNGOR A CHYMORTH

#### Cyngor a chymorth ar gyfer myfyrwyr

- 1.1 Mae canllaw i Gyfeirnod, Llên-ladrad ac Arfer Academaidd Da ar gael i fyfyrwyr ar UniLife yn:  
<https://advice.southwales.ac.uk/a2z/referencing-plagiarism-and-good-academic-practice/>
- 1.2 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol yr holl bartïon sy'n gysylltiedig â gweithrediad ei Gweithdrefn Apeliadau Academaidd. Mae cyngor a chymorth cyfrinachol ar gael gan:
- Undeb Myfyrwyr - <https://www.uswsu.com/academic>  
 Gwasanaethau Lles y Brifysgol - <http://thewellbeingservice.southwales.ac.uk/>  
 Y Gaplaniaeth - <http://chaplaincy.southwales.ac.uk/>  
 Mewnfudo a Chyngor i Fyfyrwyr Rhyngwladol - <https://intadvice.southwales.ac.uk/>
- 1.3 Fe'ch anogir i geisio cyngor cyfrinachol a chymorth gan yr Undeb Myfyrwyr, yr Ardal Gynghori neu dîm Mewnfudo a Chyngor i Fyfyrwyr Rhyngwladol os oes amheuaeth eich bod wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn academaidd.
- 1.4 Mae'r tîm Camymddwyn Academaidd yn darparu arweiniad awdurdodol, ffurfiol i staff a myfyrwyr ar gymhwysedd a gweithrediad y Rheoliadau a'r Weithdrefn Camymddwyn Academaidd.
- 1.5 Caniateir i chi gael unigolyn cymorth gyda chi mewn unrhyw drafodaethau, cyfarfodydd neu wrandawladau, er enghraifft swyddog Undeb Myfyrwyr neu ffrind. Rôl yr unigolyn cymorth yw eich cynorthwyo yn ystod y cyfarfod. Ei rôl fel arfer yw nid eich cynrychioli, eirioli ar eich rhan na siarad drosoch chi, oni chytunwyd ar hyn fel addasiad rhesymol oherwydd anabledd. Ni allwch anfon unrhyw un arall i'r cyfarfod ar eich rhan. O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol beth yw enw a statws yr unigolyn sy'n mynd gyda chi i'r cyfarfod. Argymhellir yn gryf y dylech geisio cymorth gan yr Undeb Myfyrwyr neu Gaplaniaeth y Myfyrwyr, gan eu bod yn annibynnol ac yn gyfarwydd â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.
- 1.6 Mae'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb person cymorth os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r person a enwebwyd, ac os felly, bydd y myfyriwr yn cael y cyfle i enwebu person cymorth gwahanol.
- 1.7 Nid yw gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur ac o ganlyniad, ni ddylai fod angen i chi gael person cymorth cyfreithiol neu gynrychiolydd mewn gwrandawladau/cyfarfodydd. Fodd bynnag, gallwch geisio cyngor rhagarweiniol, heb ragfarn, ar gwmpas a natur y dystiolaeth y bwriadwch ei chyflwyno i gefnogi achos sy'n arbennig o gymhleth.
- 1.8 Nid oes gennych hawl awtomatig i gael person cymorth cyfreithiol neu gynrychiolydd. Os dymunwch gael eich cefnogi/cynrychioli mewn gwrandawriad/cyfarfod, rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk) o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y

gwrandawriad/cyfarfod a drefnwyd. Mae'n rhaid i chi gynnwys yn eich cynrychiolaeth enw'r person/cynrychiolydd cymorth cyfreithiol arfaethedig a'r rhesymeg dros eich cais.

- 1.9 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod cais am berson/cynrychiolydd cymorth cyfreithiol cymwysedig i fynychu, yn dibynnu ar b'un a roddir rheswm da, a pha mor gymhleth a difrifol yw'r achos. Os caiff cais o'r fath ei gymeradwyo, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gael person/cynrychiolydd cyfreithiol cymwysedig yn bresennol hefyd. Bydd personau/cynrychiolwyr cymorth cyfreithiol cymwysedig yn cael eu hysbysu'n glir am natur y trafodion, hynny yw, nad ydynt yn broses gyfreithiol ac na fyddant yn cael eu cynnal felly.

## **ADRAN B2: EGWYDDORION CYFFREDINOL AR GYFER GWEITHREDU CYFARFODYDD A GWRANDAWIADAU**

- 2.1 Byddwch yn cael gwybod am unrhyw gyfarfodydd gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, a bydd yr holl ddogfennau yn cael eu hanfon atoch i chi eu hystyried o leiaf bum niwrnod gwaith cyn cynnal y cyfarfod.
- 2.2 Ystyrir bod rhybudd priodol am gyfarfodydd wedi cael ei roi wrth anfon hysbysiad i'ch cyfrif e-bost personol a'ch cyfrif e-bost yn y Brifysgol.
- 2.3 Byddwch yn cael cyfle i ddarparu datganiad i gefnogi'ch achos, ar ôl derbyn y dogfennau, a chyn y cyfarfod. Gellir cyflwyno tystiolaeth ddogfennol ychwanegol ar ddiwrnod y cyfarfod dim ond gyda chaniatâd pendant y Swyddog Camymddwyn Academaidd neu Gadeirydd y Panel Camymddwyn Academaidd.
- 2.4 Os oes angen newid dyddiad arnoch, bydd y cyfarfod yn cael ei aildrefnu unwaith yn unig. Rhaid i chi hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod gwreiddiol os oes angen newid dyddiad arnoch, a chi sy'n gyfrifol am nodi ar yr adeg hon os na allwch fynychu ar unrhyw ddyddiadau eraill yn y dyfodol, cyn aildrefnu'r dyddiad. Bydd y dyddiad yn cael ei newid o leiaf 48 awr ar ôl dyddiad y cyfarfod gwreiddiol. Os na fyddwch yn gofyn am newid dyddiad, ac nad ydych yn mynychu'r cyfarfod, caiff ei gynnal yn eich absenoldeb. Os na allwch fynychu cyfarfod, fe'ch cynghorir yn gryf i ddarparu datganiad ysgrifenedig i gefnogi'ch achos.
- 2.5 Fel arfer cynhelir cyfarfodydd rhithwir; fodd bynnag, cewch gyfle i ofyn am gyfarfod corfforol ar y campws os mai dyna yw eich dewis. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn cadarnhau'r ddolen neu'r lleoliad ar-lein.
- 2.6 Byddwch yn cael eich hysbysu'n swyddogol yn ysgrifenedig am y canlyniad ym mhob cam o'r broses o fewn pum niwrnod gwaith, ynghyd â'r rheswm dros beidio â rhoi canlyniad/cosb llai. Mewn rhai achosion, gall Swyddog Camymddwyn Academaidd hefyd ddewis rhoi canlyniad ar lafar yn ystod y cyfarfod os ydynt yn teimlo bod hyn yn briodol. Mae hyn yn ôl disgrisiwn y Swyddog Camymddwyn Academaidd.
- 2.7 Bydd yr holl ganlyniadau'n cael eu hadrodd i'r byrddau asesu trwy'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Bydd y Bwrdd Asesu Pwnc yn cofnodi'r canlyniad mewn perthynas â'r modiwl. Bydd y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant yn cofnodi ac yn cadarnhau'r penderfyniad, yn amodol ar eich proffil academaidd.

- 2.8 Ni chaniateir iawndal pan fo modiwl wedi bod yn destun Camymddwyn Academaidd a bod cosb o dan 6.1 b) i ch) o'r Tariff Cosbau wedi'i chymhwyso. Fodd bynnag, gall Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant ystyried yn ôl eu disgrisiwn, ganiatáu iawndal ar y pwynt yr ystyrir yr asesiad(au) a ailgyflwynwyd, o ganlyniad i gosb Camymddwyn Academaidd.

### **ADRAN B3: AMSERLENNI**

- 3.1 Mae gan y Swyddog Camymddwyn Academaidd 20 diwrnod gwaith i gwrdd â myfyrwyr (os ydynt yn credu bod achos i'w ateb) i bennu canlyniad priodol o'r dyddiad y cyflwynir y darn olaf o dystiolaeth yn ymwneud â'r camymddwyn academaidd a amheuir i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Fodd bynnag, os yw'r Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant i fod i gwrdd cyn diwedd yr 20 diwrnod gwaith, dylid pennu'r canlyniad, lle bo hynny'n bosibl, gerbron y bwrdd hwnnw.
- 3.2 Mae gan y Brifysgol 20 diwrnod gwaith arall i gwrdd â myfyrwyr i bennu canlyniad unwaith y bydd achos wedi'i atgyfeirio gan Swyddog Camymddwyn Academaidd at Banel Camymddwyn Academaidd.
- 3.3 Lle nad yw'n bosibl cadw at yr amserlenni a nodir yn adrannau B3 3.1 a B3 3.2, er enghraifft oherwydd cymhlethdod yr achos neu oedi annisgwyl, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu at y myfyriwr ac yn eu hysbysu am ddatblygiad eu hachos.

### **ADRAN B4: LEFEL CYFADRAN**

- 4.1 Bydd Swyddog Camymddwyn Academaidd yn adolygu'ch achos wrth ei dderbyn er mwyn penderfynu a oes achos i'w ateb, neu p'un a oes arfer academaidd gwael wedi digwydd, Os bydd y Swyddog Camymddwyn Academaidd yn penderfynu bod achos i'w ateb, byddant yn trefnu cyfarfod gyda chi.
- 4.2 Pan fydd achos o arfer academaidd gwael yn cael ei amau, yn ystod yr ystyriaeth gychwynnol i'ch achos gan Swyddog Camymddwyn Academaidd, byddwch yn cael gwybod am eu barn a'u rhesymeg yn ysgrifenedig, ynghyd ag atgyfeiriad i fynychu sesiwn gyda'r Gwasanaeth Datblygu Myfyrwyr a Sgiliau Astudio. Sylwch efallai na fydd y cam hwn yn briodol mewn rhai achosion, megis os oes hanes blaenorol o gamymddwyn academaidd.
- 4.3 Os bydd y Swyddog Camymddwyn Academaidd yn ystyried bod angen trafodaeth gyda chi, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfarfod, ac/neu fel arall, byddwch yn cael dewis i gyflwyno datganiad ysgrifenedig. Gall fod yn briodol trefnu cyfarfodydd trwy fideo-gynadledda os bydd yn anodd i chi fynychu'n bersonol. Fel arfer cynhelir cyfarfodydd rhithwir; fodd bynnag, cewch gyfle i ofyn am gyfarfod corfforol ar y campws os mai dyna yw eich dewis.
- 4.4 Yn bresennol yn y cyfarfod gyda chi a'ch person cymorth (os hoffech ddod ag un gyda chi) fydd y Swyddog Camymddwyn Academaidd ac aelod o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr i gymryd nodiadau. Os ydych chi'n brentis/myfyriwr cyflogedig, gellir hysbysu'ch cyflogwr o'r cyfarfod trwy enwebai Deon Cyfadran, a gellir ei wahodd i fod yn sylwedydd yn unig, yn dibynnu ar ofynion eich cwrs/cyflogwr. Nid yw hyn yn atal y cyflogwr rhag parhau â'i weithdrefn ei hun, pe bai'n barnu bod hynny'n angenrheidiol.

- 4.5 Yn dilyn trafodaeth rhyngoch chi a'r Swyddog Camymddwyn Academaidd, cymerir un o'r camau canlynol:
- a) Os deuir i'r casgliad na fu unrhyw gamymddwyn academaidd, ni chymerir unrhyw gamau pellach, heblaw am roi gwybod i'r aelod staff a oedd yn amau Camymddwyn Academaidd nad oedd hynny wedi digwydd.
  - b) Os deuir i'r casgliad bod arfer academaidd gwael wedi digwydd, cewch eich cyfeirio i fynychnu sesiwn gyda'r Gwasanaeth Datblygu Myfyrwyr a Sgiliau Astudio. Rhoddir cyngor clir i chi ar y camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd i sicrhau na fydd yr arfer gwael yn digwydd eto. Cedwir copi o'r canlyniad ar gofnod, er mwyn gallu adnabod myfyrwyr sy'n cael eu cyfeirio dro ar ôl tro trwy'r Weithdrefn hon.
  - c) Os deuir i'r casgliad bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bydd y Swyddog Camymddwyn Academaidd yn penderfynu ar gosb o'r rhestr yn adran A6 y Rheoliadau Camymddwyn Academaidd. Gall Swyddogion Camymddwyn Academaidd roi cosbau hyd at a chan gynnwys A6 6.1 c). Ni fydd hanes profedig blaenorol o gamymddwyn academaidd yn cael ei wneud yn hysbys i'r Swyddog Camymddwyn Academaidd tan ar ôl i achos gael ei benderfynu, ac fe'i hystyrir wrth benderfynu ar gosb briodol.
  - ch) Bydd achosion difrifol a chymhleth yn cael eu cyfeirio at y Panel Camymddwyn Academaidd.

#### **ADRAN B5: LEFEL Y BRIFYSGOL**

- 5.1 Pan gaiff achos ei gyfeirio at y Panel Camymddwyn Academaidd i'w ystyried ymhellach, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn trefnu cyfarfod o'r Panel.
- 5.2 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Bwrdd Camymddwyn Academaidd y dewisir Panel Camymddwyn Academaidd o blith ei aelodau i wrando ar achosion sydd naill ai'n gymhleth neu lle mae'n bosibl y bydd y gosb yn fwy nag A6 6.1 c).
- 5.3 Bydd aelodaeth y Bwrdd Camymddwyn Academaidd fel a ganlyn:
- Ugain aelod ar lefel rheolwr pwnc academaidd neu uwch o bob rhan o'r sefydliad, wedi'u henwebu gan ddeoniaid y gyfadran/ pennaeth y coleg (neu eu henwebeion).
- 5.4 Bydd cyfansoddiad y Panel Camymddwyn Academaidd fel a ganlyn:
- Dau aelod o'r Bwrdd Camymddwyn Academaidd (y bydd un ohonynt yn gadeirydd);
  - Llywydd Undeb Myfyrwyr (neu enwebai).

Bydd aelod o staff o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu cymorth gweinyddol.

Bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu'r enwebai) yn gyfrifol am awdurdodi unrhyw newidiadau i gyfansoddiad pwyllgorau / paneli yn ôl yr angen.

Bydd aelodau'r Panel Camymddwyn Academaidd yn annibynnol ac ni fyddant wedi bod yn aelod o fwrdd asesu sy'n gysylltiedig â'r honiad, ni fyddant yn gysylltiedig â'r cwrs, ac ni fydd ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol o'r honiad. Yn achos cynrychiolydd Undeb Myfyrwyr, ni fyddant yn flaenorol wedi cynorthwyo'r myfyriwr yn ystod yr achos.

Os ydych chi'n brentis/myfyriwr cyflogedig, efallai y bydd eich cyflogwr yn cael ei hysbysu, a bydd yn cael gwahoddiad i fynychu'r Panel fel sylwedydd yn unig. Nid yw hyn yn atal y cyflogwr rhag parhau â'i weithdrefn ei hun, pe bai'n tybio bod hynny'n angenrheidiol. Ni chynhwysir yr arsylwr mewn unrhyw drafodaethau ynghylch cosbau.

- 5.5 Byddwch chi a'r aelod staff sy'n amau bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd (neu Arweinydd y Modiwl) yn cael eich gwahodd i gyfarfod. Gall Cadeirydd y Panel Camymddwyn Academaidd ofyn i'r Swyddog Camymddwyn Academaidd fynychu'r cyfarfod hefyd, os yw'n briodol.
- 5.6 I'r graddau ag y bo'n bosibl, bydd y Panel yn sefydlu ffeithiau'r achos, a fydd yn cynnwys ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan y tiwtor sy'n codi'r honiad, a/neu ymchwiliad y Swyddog Camymddwyn Academaidd Pan gaiff honiad ei brofi, bydd y Panel yn ceisio cyngor wrth benderfynu ar gosb i sicrhau ei bod yn briodol i'r cwrs. Bydd unrhyw drosedd academaidd profedig neu gyfaddefiad ar eich rhan chi yn cael ei ystyried wrth bennu'r gosb.

## **ADRAN B6: GWEITHDREFN ADOLYGU**

- 6.1 Ar ôl i'r Swyddog Camymddwyn Academaidd neu'r Panel Camymddwyn Academaidd roi gwybod am ei gosb, mae gennych hawl i gyflwyno cais am adolygiad ar y seiliau canlynol:
- a) Mae gennych dystiolaeth na chafodd y gweithdrefnau eu cynnal yn unol â'r rheoliadau, a gallai hyn beri amheuaeth resymol ynghylch a fyddai'r un penderfyniad wedi cael ei wneud pe na bai wedi digwydd.
  - b) Mae camgymeriad gweinyddol wedi digwydd (er enghraifft, nid oedd yr hysbysiad o'r gosb yn cyd-fynd â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod neu fe'i cofnodwyd yn anghywir ar eich cofnod).
  - c) Gallwch ddangos bod y penderfyniad yn afresymol a/neu fod y gosb yn anghymesur..
- 6.2 Ni all staff y Brifysgol wneud cais am adolygu'r canlyniad; dim ond chi all wneud cais am adolygiad.
- 6.3 Fe'ch anogir yn gryf i geisio cymorth gan yr Undeb Myfyrwyr, yr Ardal Gynghori neu'r tîm Cyngor Mewnffudo a Myfyrwyr Rhyngwladol cyn i chi geisio bwrw ymlaen i'r cam adolygu.
- 6.4 Rhaid i chi gyflwyno'ch cais am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith i hysbysiad am ganlyniad achos y Swyddog Camymddwyn Academaidd neu'r Panel Camymddwyn Academaidd, gan ddefnyddio'r ffurflen 'Camymddwyn Academaidd – Cais am Adolygiad' sydd ar gael yn:  
<https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/academic-misconduct/>

Ni dderbynnir ceisiadau am adolygiad oni bai eu bod cydymffurfio â'r gofynion uchod.

- 6.5 Caiff ceisiadau am adolygiad eu hystyried i ddechrau gan y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) i benderfynu a oes achos dros adolygiad, o fewn 5 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais.
- 6.6 Os bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai), ar ôl ystyried y cais am adolygiad, yn dod i'r casgliad:
- a) nad yw'n bodloni'r seiliau a nodwyd uchod yn B6 6.1,
  - b) y cafodd ei gyflwyno ar ôl y terfyn amser o 10 diwrnod gwaith,
- bydd y cais am adolygiad yn cael ei wrthod a bydd y penderfyniad gwreiddiol yn aros fel y mae. Bydd Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn cael ei anfon atoch o fewn 5 diwrnod gwaith.
- 6.7 Os bu camgymeriad gweinyddol clir, bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn rhoi cyfarwyddyd i'r adran berthnasol ddiwygio'ch cofnod. Mewn achosion o'r fath, ni fydd yn ofynnol i'r Panel Adolygu gyfarfod.
- 6.8 Fel arall, os bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn penderfynu bod y cais am adolygiad yn bodloni un o'r seiliau uchod neu'r ddwy ohonynt, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn gwneud trefniadau i sefydlu Panel Adolygu o fewn 20 diwrnod gwaith o benderfyniad y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai), a ddaw o Fwrdd Adolygu a Llywydd Undeb Myfyrwyr (neu enwebai).
- 6.9 Bydd y Bwrdd Adolygu'n cynnwys:
- Pedwar aelod wedi'u penodi gan y Bwrdd Academaidd;
  - Pedwar cynrychiolydd academaidd o bob cyfadran (o leiaf).
- 6.10 Bydd y Panel Adolygu'n cynnwys:
- Un o aelodau'r Bwrdd Adolygu wedi'i benodi gan y Bwrdd Academaidd (Cadeirydd);
  - Un o'r cynrychiolwyr academaidd ar y Bwrdd Adolygu, wedi'u dewis o gyfadranau nad oes ganddynt gysylltiad â'r achos sydd dan ystyriaeth;
  - Llywydd Undeb Myfyrwyr (neu enwebai) ac mae'n rhaid nad yw'n gysylltiedig â'r achos gwreiddiol ar lefel cyfadran na Phrifysgol (p'un a yw hynny i roi cymorth neu fel aelod o Banel Camymddwyn Academaidd).

Bydd aelod o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu cymorth gweinyddol.

Os ydych chi'n brentis/myfyriwr cyflogedig, efallai y bydd eich cyflogwr yn cael ei hysbysu, a bydd yn cael gwahoddiad i fynychu'r Panel fel sylwedydd yn unig. Nid yw hyn yn atal y cyflogwr rhag parhau â'i weithdrefn ei hun, pe bai'n tybio bod hynny'n angenrheidiol. Ni chynhwysir yr arsylwr mewn unrhyw drafodaethau ynghylch cosbau.

- 6.11 Cynhelir unrhyw gyfarfod o'r Panel Adolygu yn breifat. Diben y cyfarfod yw adolygu gweithdrefnau'r Swyddog Camymddwyn Academaidd a/neu'r Panel Camymddwyn Academaidd a/neu staff cymorth, ac nid gwrando ar yr achos eto. Byddwch chi a'r Swyddog Camymddwyn Academaidd a/neu Gadeirydd y Panel Camymddwyn Academaidd perthnasol yn cael cyfle i ddarparu gwybodaeth yn ysgrifenedig.



6.12 Bydd y Panel Adolygu yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

a) Gwrthod y cais am adolygiad a pheidio â gweithredu ymhellach.

Yn yr achos uchod, bydd penderfyniad y Panel Adolygu yn derfynol ac ystyrir bod y mater wedi dod i ben.

b) Argymhell i'r Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) fod y penderfyniad yn cael ei wrthdroi, ac awgrymu rheswm dros ganlyniad arall priodol.

## **ADRAN B7: MONITRO**

7.1 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Pwyllgor Uniondeb Academaidd, i adolygu ei gweithgareddau a sicrhau cysondeb arfer a gwneud penderfyniadau ar draws Swyddogion Camymddwyn Academaidd a Phaneli Camymddwyn Academaidd.

7.2 Bydd y Pwyllgor Uniondeb Academaidd yn cynnwys:

- Cofrestrydd Academaidd neu enwebai (Cadeirydd)
- Dau gynrychiolydd o bob cyfadran academaidd a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) a enwebwyd gan y Deon/Pennaeth
- Cynrychiolydd o sefydliadau partner PDC
- Cynrychiolydd o'r Ganolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu (CELT)
- Cynrychiolydd o Datblygu Myfyrwyr a Sgiliau Astudio (SDSS)
- Cynrychiolydd Undeb Myfyrwyr
- Cynrychiolydd o Gwasanaethau TG
- Cynrychiolydd o Astudiaethau Ymchwil
- Cynrychiolydd o Rhyngwladol PDC
- Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr
- Enwebai'r Cofrestrydd Cysylltiol (Pennaeth Achos Myfyrwyr) (Ysgrifennydd)

7.3 Bydd y Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr yn derbyn yr adroddiad blynyddol ar gamymddwyn academaidd a chofnodion cyfarfod y Pwyllgor Uniondeb Academaidd. Gall y Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr wneud argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella, y Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd, fel y bo'n briodol, ar unrhyw faterion sy'n codi o ystyried achosion Camymddwyn Academaidd sy'n gofyn am newid rheoliadau a gweithdrefnau.

## **ADRAN B8: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA) AR GYFER ADDYSG UWCH**

8.1 Os ydych yn anhapus â chanlyniad y Weithdrefn hon gallwch, yn dilyn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i'r OIA.

8.2 Gellir cael manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn [www.oiahe.org.uk](http://www.oiahe.org.uk) Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

## Atodiad 1

**Tariff Cosbau am Gamymddwyn Academaidd  
i'w ddefnyddio gan Swyddogion Camymddwyn Academaidd (AMOs) a Phaneli Camymddwyn Academaidd (AMPs)**

**DS** Mae'r canlyniad a'r cosbau fel y'u cynhwysir yn y rheoliadau a dyma'r unig ganlyniadau a chosbau y mae'r rheoliadau'n eu caniatáu.

Gall AMOs roi cosb hyd at A6 6.1 3). Mae gan AMPs yr ystod lawn o ganlyniadau a chosbau sydd ar gael iddynt.

Sylwch y bydd unrhyw hawliadau amgylchiadau esgusodol cymeradwy sydd wedi effeithio ar eisteddiadau asesu blaenorol cyn i'r honiad o gamymddwyn academaidd ddigwydd yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Asesu Pwnc perthnasol a/neu'r Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant.

Dylid darllen y Tariff Cosbau hwn ar y cyd â'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir.

Rheoliad	Arfer academaidd gwael neu Gamymddwyn academaidd	Canlyniad/Cosb	Gweithrediad eisteddiad cyntaf/ail ac effaith y gosb
A3	Arfer academaidd gwael	Cyfeirir y myfyriwr i weithdy sgiliau astudio.  Cyfarfod gyda Hyfforddwr Academaidd Personol y myfyriwr.	Gellir defnyddio hwn yn y cyflwyniad cyntaf neu'r ail. <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn yr achos hwn, mae holl waith y myfyriwr yn cael ei farcio, gan ystyried yn briodol ac yn gyfannol yr ysgolheictod gwael, yn unol â barn academaidd y tiwtor marcio.</li> <li>Cofnodir<sup>5</sup> nodyn yn electronig ar y system cofnod myfyriwr.</li> </ul>
6.1 1)	Camymddwyn Academaidd	<b>Cosb 1</b> Cyhoeddi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol ynghylch ymddygiad yn y dyfodol. Cedwir y rhybudd ar gofnod personol y myfyriwr.  Cyfeirir y myfyriwr i weithdy sgiliau astudio.	Gellir defnyddio'r gosb hon yn y cyflwyniad cyntaf neu'r ail. <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn yr achos hwn, mae gwaith y myfyriwr yn cael ei farcio heb gynnwys yr elfennau y nodwyd eu bod yn cynnwys Camymddwyn Academaidd. Penderfyniad y tiwtor marcio fydd hyn, a all</li> </ul>

<sup>5</sup> Cofnodir troseddau ar bob cam a lefel difrifoldeb. Ni fydd methu â chofnodi troseddau yn caniatáu i Swyddog Camymddwyn Academaidd neu Banel Camymddwyn Academaidd benderfynu ar gosbau priodol mewn achosion yn y dyfodol.

		<p>Cynghorir bod y myfyriwr yn trefnu cyfarfod gydag aelod staff academiaidd priodol i drafod a derbyn cefnogaeth ar gyfer y canlyniad a'r gosb hon. Fel rheol, dyma'r aelod o staff a gododd yr honiad neu'r Arweinydd Modiwl, neu Hyfforddwr Academiaidd Personol y myfyriwr.</p>	<p>gysylltu â'r Swyddog Camymddwyn Academiaidd os dymunant.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y Bwrdd Asesu Pwnc yn cofnodi'r marc a osodir mewn perthynas â'r modiwl. Bydd y Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant yn cofnodi ac yn cadarnhau'r penderfyniad, yn amodol ar eich proffil academiaidd, ac yn ôl y Rheoliadau ar gyfer Cysiau a Addysgir.</li> </ul>
6.1 2)	Camymddwyn Academiaidd	<p><b>Cosb 2</b> Canslo marc ar gyfer yr elfen asesu - rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer yr elfen - mae'r modiwl cyfan wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol<sup>6</sup>, ond mae'r holl farciau eraill a gyflawnir yn y modiwl yn aros yr un fath, yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Cysiau a Addysgir.</p> <p>Cyfeirir y myfyriwr i weithdy sgiliau astudio.</p> <p>Cynghorir bod y myfyriwr yn trefnu cyfarfod gydag aelod staff academiaidd priodol i drafod a derbyn cefnogaeth ar gyfer y canlyniad a'r gosb hon. Fel rheol, dyma fyddai'r aelod o staff a gododd yr honiad neu'r Arweinydd Modiwl, neu Hyfforddwr Academiaidd Personol y myfyriwr.</p>	<p>Cyflwyniad cyntaf - fel rheol byddai'n ofynnol i'r myfyriwr ailgyflwyno'r elfen yn y pwynt asesu nesaf. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion lle bydd gofyn i'r myfyriwr ailadrodd y modiwl, yn dibynnu ar eu proffil academiaidd ar y pryd.</p> <p>Ail gyflwyniad - rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r elfen ar y pwynt asesu nesaf. Gall hyn arwain at orfod ailadrodd y modiwl, yn dibynnu ar eu proffil academiaidd ar y pryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y Bwrdd Asesu Pwnc yn cofnodi'r marc a osodir mewn perthynas â'r modiwl. Bydd y Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant yn cofnodi ac yn cadarnhau'r penderfyniad, yn amodol ar eich proffil academiaidd, ac yn ôl y Rheoliadau ar gyfer Cysiau a Addysgir.</li> <li>• Efallai yr effeithir ar ddsbarthiadau anrhydedd. Efallai yr effeithir ar radd dyfarniad ôl-raddedig.</li> <li>• Cofnodir<sup>7</sup> y drosedd yn electronig ar y system cofnod myfyriwr.</li> </ul>
6.1 3)	Camymddwyn Academiaidd	<p><b>Cosb 3</b> Canslo marciau ar gyfer y modiwl cyfan - rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer</p>	<p>Cyflwyniad cyntaf - rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno pob elfen ar gyfer y modiwl cyfan ar y pwynt asesu nesaf. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion lle bydd gofyn i'r myfyriwr</p>

<sup>6</sup> Diffinnir y marc pasio yn y ddogfen ddilysu. Fel rheol bydd hyn yn 40%, fodd bynnag, gall hyn fod yn wahanol ar gyfer rhai cysiau a modiwlau, lle, er enghraifft, y gall fod rhanddirymiad oherwydd gofynion corff proffesiynol.

<sup>7</sup> Cofnodir troseddau ar bob cam a lefel difrifoldeb. Ni fydd methu â chofnodi troseddau yn caniatáu i Swyddog Camymddwyn Academiaidd neu Banel Camymddwyn Academiaidd benderfynu ar gosbau priodol mewn achosion yn y dyfodol.

		<p>pob elfen o'r asesiad er mwyn pasio'r modiwl - mae'r modiwl wedi'i gapio ar y marc<sup>8</sup> pasio sylfaenol.</p> <p>Cyfeirir y myfyriwr i weithdy sgiliau astudio.</p> <p>Cynghorir bod y myfyriwr yn trefnu cyfarfod gydag aelod staff academaidd priodol i drafod a derbyn cefnogaeth ar gyfer y canlyniad a'r gosb hon. Fel rheol, dyma fyddai'r aelod o staff a gododd yr honiad neu'r Arweinydd Modiwl, neu Hyfforddwr Academaidd Personol y myfyriwr.</p>	<p>ailadrodd y modiwl, yn dibynnu ar eu proffil academaidd ar y pryd.</p> <p>Ail gyflwyniad - rhaid i'r myfyriwr ailadrodd y modiwl ar y cyfle cyntaf, yn dibynnu ar eu proffil academaidd ar y pryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y Bwrdd Asesu Pwnc yn cofnodi'r marc a osodir mewn perthynas â'r modiwl. Bydd y Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant yn cofnodi ac yn cadarnhau'r penderfyniad, yn amodol ar eich proffil academaidd, ac yn ôl y Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir.</li> <li>• Efallai yr effeithir ar ddsbarthiadau anrhydedd. Efallai yr effeithir ar radd dyfarniad ôl-raddedig.</li> <li>• Cofnodir<sup>9</sup> y drosedd yn electronig ar y system cofnod myfyriwr.</li> </ul>
6.1 4)	Camymddwyn Academaidd	<p><b>Cosb 4</b></p> <p>Canslo marciau ar gyfer y modiwl cyfan - rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer pob elfen o'r asesiad er mwyn pasio'r modiwl - mae'r modiwl wedi'i gapio ar y marc<sup>10</sup> pasio sylfaenol. Mae pob marc modiwl ar gyfer y cam<sup>11</sup> wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol.</p> <p>Cyfeirir y myfyriwr i weithdy sgiliau astudio.</p> <p>Cynghorir bod y myfyriwr yn trefnu cyfarfod gydag aelod staff academaidd priodol i drafod a derbyn cefnogaeth ar gyfer y</p>	<p>Cyflwyniad cyntaf - rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno pob elfen ar gyfer y modiwl cyfan ar y pwynt asesu nesaf. Gall hyn arwain at orfod ailadrodd y modiwl, yn dibynnu ar eu proffil academaidd ar y pryd.</p> <p>Ail gyflwyniad - rhaid i'r myfyriwr ailadrodd y modiwl ar y cyfle cyntaf, yn dibynnu ar eu proffil academaidd ar y pryd.</p>

<sup>8</sup> Diffinnir y marc pasio yn y ddogfen ddilysu. Fel rheol bydd hyn yn 40%, fodd bynnag, gall hyn fod yn wahanol ar gyfer rhai cyrsiau a modiwlau, lle, er enghraifft, y gall fod rhanddirymiad oherwydd gofynion corff proffesiynol.

<sup>9</sup> Cofnodir troseddau ar bob cam a lefel difrifoldeb. Ni fydd methu â chofnodi troseddau yn caniatáu i Swyddog Camymddwyn Academaidd neu Banel Camymddwyn Academaidd benderfynu ar gosbau priodol mewn achosion yn y dyfodol.

<sup>10</sup> Diffinnir y marc pasio yn y ddogfen ddilysu. Fel rheol bydd hyn yn 40%, fodd bynnag, gall hyn fod yn wahanol ar gyfer rhai cyrsiau a modiwlau, lle, er enghraifft, y gall fod rhanddirymiad oherwydd gofynion corff proffesiynol.

<sup>11</sup> Modiwlau o fewn cam yw'r modiwlau sy'n cael eu hastudio gan fyfyrwr yn y flwyddyn academaidd benodol honno.

		canlyniad a'r gosb hon. Fel rheol, dyma fyddai'r aelod o staff a gododd yr honiad neu'r Arweinydd Modiwl, neu Hyfforddwr Academaidd Personol y myfyriwr.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai yr effeithir ar ddsbarthiadau anrhydedd. Efallai yr effeithir ar radd dyfarniad ôl-raddedig.</li> <li>Cofnodir<sup>12</sup> y drosedd yn electronig ar y system cofnod myfyriwr.</li> </ul>
6.1 5)	Camymddwyn Academaidd	<b>Cosb 5</b> Canslo pob marc modiwl ar gyfer y cam cyfredol - ni chaniateir i'r myfyriwr ailadrodd y flwyddyn. Caniateir i'r myfyriwr gadw'r credydau a enillwyd eisoes.	Dim gwahaniaeth o ran gweithredu'r gosb rhwng yr eisteddiad cyntaf a'r ail eisteddiad. <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni all myfyriwr barhau ar yr un cwrs. Efallai y caniateir i fyfyriwr gofrestru ar gwrs newydd. Gall myfyriwr adael gyda dyfarniad canolradd, ac os felly, caniateir iddynt fynychu seremoni raddio yn ôl disgrisiwn yr Is-Ganghellor (neu enwebai).</li> </ul>
6.1 6)	Camymddwyn Academaidd	<b>Cosb 6 (i)</b> Gwneir argymhelliad <sup>13</sup> i'r Is-Ganghellor (neu enwebai) y dylid diarddel y myfyriwr dan sylw. Gall y myfyriwr gael ei: i) Ddiarddel â chredyd - caniateir i'r myfyriwr gadw credydau a gafwyd eisoes; ni chaniateir astudio pellach yn y Brifysgol.	Dim gwahaniaeth o ran gweithredu'r gosb rhwng yr eisteddiad cyntaf a'r ail eisteddiad. <ul style="list-style-type: none"> <li>Diarddel y myfyriwr o'r Brifysgol. Gall myfyriwr gadw unrhyw greddyd a enillwyd a'i ddefnyddio i gofrestru mewn sefydliad arall. Gall myfyriwr adael gyda dyfarniad canolradd, ac os felly, caniateir iddynt fynychu seremoni raddio yn ôl disgrisiwn yr Is-Ganghellor (neu enwebai).</li> </ul>
6.1 6ii)	Camymddwyn Academaidd	<b>Cosb 6 (ii)</b> Gwneir argymhelliad <sup>14</sup> i'r Is-Ganghellor (neu enwebai) y dylid diarddel y myfyriwr dan sylw. Gall y myfyriwr gael ei: ii) Ddiarddel heb greddyd – dirymir yr holl greddydau presennol; ni chaniateir astudio pellach yn y Brifysgol.	Dim gwahaniaeth o ran gweithredu'r gosb rhwng yr eisteddiad cyntaf a'r ail eisteddiad. <ul style="list-style-type: none"> <li>Myfyriwr yn cael ei ddiarddel o'r Brifysgol. Ni all myfyriwr gadw unrhyw greddyd a enillir neu ymadael â dyfarniad canolradd.</li> </ul>

<sup>12</sup> Cofnodir troseddau ar bob cam a lefel difrifoldeb. Ni fydd methu â chofnodi troseddau yn caniatáu i Swyddog Camymddwyn Academaidd neu Banel Camymddwyn Academaidd benderfynu ar gosbau priodol mewn achosion yn y dyfodol.

<sup>13</sup> Bydd yr Ysgrifennydd, ar y cyd â Chadeirydd yr AMP, yn paratoi'r datganiad argymhelliad yn seiliedig ar y trafodaethau yn y Panel. Dylid anfon hwn at yr Uned Gwaith Achos Myfyrywr i'w anfon ymlaen at y Cofrestrydd Academaidd i'w gymeradwyo, fel enwebai'r Is-Ganghellor.

<sup>14</sup> Bydd yr Ysgrifennydd, ar y cyd â Chadeirydd yr AMP, yn paratoi'r datganiad argymhelliad yn seiliedig ar y trafodaethau yn y Panel. Dylid anfon hwn at yr Uned Gwaith Achos Myfyrywr i'w anfon ymlaen at y Cofrestrydd Academaidd i'w gymeradwyo, fel enwebai'r Is-Ganghellor.